# Asesiad o'r

# Effeithiau Amgylcheddol Posibl

# yr

# Ardoll Ymwelwyr

**Dyddiad**: Ebrill 2026

**Awdur:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Cynnwys


1. Diben yr Asesiad hwn
2. Canfyddiadau Amgylcheddol Allweddol
3. Cyd-destun Amgylcheddol Conwy
4. Effeithiau Pwysau Twristiaeth
5. Effeithiau Amgylcheddol Cadarnhaol Posibl Ardoll Ymwelwyr
6. Effeithiau Amgylcheddol Negyddol Posibl Ardoll Ymwelwyr
7. Ystyriaethau Bioamrywiaeth (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)
8. Ystyriaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
9. Enghreifftiau o Gyrchfannau Eraill
10. Effaith Newidiadau yn Nifer yr Ymwelwyr
11. Casgliad

## 1. Diben yr Asesiad hwn

Mae'r atodiad hwn yn ystyried yr effeithiau amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno Ardoll Ymwelwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'n canolbwyntio ar:

- Effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol ar yr amgylchedd naturiol
- Sut y gallai ymddygiad ymwelwyr newid
- Sut y gallai ailfuddsoddi incwm yr ardoll liniaru pwysau
- Cydweddiad â dyletswyddau amgylcheddol statudol yng Nghymru

Mae'r asesiad yn cydnabod y byddai'r effeithiau yn anuniongyrchol, ac y bydd canlyniadau'n dibynnu ar sut y caiff incwm yr ardoll ei lywodraethu, ei dargedu a'i fonitro.

## 2. Canfyddiadau Amgylcheddol Allweddol

Mae amgylchedd Conwy yn ganolog i'r economi ymwelwyr ond eisoes o dan bwysau mewn ardaloedd arfordirol, ucheldirol a gwledig.

Nid yw Ardoll Ymwelwyr yn amddiffyn yr amgylchedd yn uniongyrchol, ond gall ddarparu ffynhonnell ariannu benodol ar gyfer lliniaru a gwella.

Nid yw buddion amgylcheddol yn awtomatig ac maent yn dibynnu ar:

- Defnydd tryloyw a chlustnodedig o gyllid
- Targedu buddsoddiad at fannau o bwysau uchel
- Monitro parhaus o effeithiau

Mae risgiau, yn enwedig:

- Mwy o ymweliadau dydd a defnydd o geir
- Ailddosbarthu ymwelwyr i leoliadau llai rheoledig

Ar y cyfan, mae'r ardoll yn cynrychioli risg gymedrol ond potensial budd uchel os câi ei rheoli'n dda.

## 3. Cyd-destun Amgylcheddol Conwy

Mae cynnig ymwelwyr Conwy yn cael ei siapio'n sylfaenol gan ansawdd, amrywiaeth ac unigrywiaeth ei hamgylchedd naturiol, sy'n ganolog i hunaniaeth y sir ac yn sbardun allweddol i'r economi ymwelwyr leol.

Mae'r sir yn cynnwys amrywiaeth eithriadol o amgylcheddau, gan gynnwys:

- Rhan helaeth o arfordir Gogledd Cymru, gyda thraethau, twyni, clogwyni a chynefinoedd morol
- Tirluniau ucheldirol a gwledig helaeth yng nghanol ac o amgylch Parc Cenedlaethol Eryri
- Rhwydwaith rhyng-gysylltiedig o afonydd, coetiroedd, tir amaeth a thirluniau hanesyddol

O fewn y tirluniau hyn, mae Conwy yn cynnwys nifer sylweddol o safleoedd dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNCau) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl). Mae’r safleoedd hyn yn rhan annatod o enw da’r sir fel cyrchfan ymwelwyr o ansawdd uchel, ond maent hefyd yn arbennig o sensitif i bwysau ymwelwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau brig tymhorol ac mewn ardaloedd lle mae gweithgarwch dwys.

Er nad yw cyflwyno Ardoll Ymwelwyr wedi’i fwriadu i gael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd, mae potensial ar gyfer effeithiau amgylcheddol eilaidd sy’n deillio o newidiadau mewn ymddygiad ymwelwyr, patrymau teithio neu hyd arhosiad, yn ogystal â’r modd y mae refeniw’r ardoll yn cael ei ailfuddsoddi’n lleol. Bydd y ffordd y mae unrhyw refeniw’n cael ei lywodraethu, ei dargedu a’i fonitro felly’n ffactor allweddol wrth sicrhau bod asedau naturiol Conwy yn cael eu diogelu, eu gwella a’u rheoli’n gynaliadwy, yn unol â dyletswyddau amgylcheddol statudol ac er budd trigolion, ymwelwyr a chenedlaethau’r dyfodol.

## 4. Effeithiau Pwysau Twristiaeth

Gall y prif bwysau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth yn Conwy gynnwys:

- Taflu sbwriel ac effeithiau rheoli gwastraff, gyda galw cynyddol ar wasanaethau casglu a glanhau yn ystod cyfnodau brig ymwelwyr
- Tagfeydd traffig a phwysau parcio, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac arfordirol nad ydynt wedi’u cynllunio i dderbyn niferoedd uchel o drafnidiaeth ymwelwyr
- Allyriadau carbon, yn bennaf yn gysylltiedig â theithio ymwelwyr i’r sir ac o fewn y sir
- Erydiad pridd a diraddio llwybrau, lle mae traed parhaus yn effeithio ar dirweddau sensitif, gan gynnwys llwybrau ucheldirol, twyni a llwybrau arfordirol
- Aflonyddwch i fywyd gwyllt a chynefinoedd, gan gynnwys sathru llystyfiant ac amharu ar batrymau bridio, bwydo neu orffwys mewn safleoedd dynodedig ac annynodedig

Mae tystiolaeth o bob rhan o Gymru yn dangos y gall niferoedd uchel parhaus o ymwelwyr effeithio’n andwyol ar fioamrywiaeth a chyflwr cynefinoedd lle nad oes mesurau lliniaru priodol ar waith neu lle nad oes digon o adnoddau ar eu cyfer. Mae’r ystyriaethau hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghonwy, o ystyried maint a sensitifrwydd ei hamgylcheddau naturiol ac arfordirol a’u pwysigrwydd i economi ymwelwyr y sir.

## 5. Effeithiau Amgylcheddol Cadarnhaol Posibl Ardoll Ymwelwyr

Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll ac ati) (Cymru) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i refeniw'r ardoll gael ei ailfuddsoddi at ddibenion sy'n cynnwys:

- Lliniaru effaith ymwelwyr
- Cefnogi twf twristiaeth gynaliadwy
- Cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer ymwelwyr a thrigolion
- Hybu a chefnogi'r Gymraeg

Mae cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn cynnig y potensial i ddarparu ystod o ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, yn enwedig pan fo'r incwm yn cael ei glustnodi a'i ailfuddsoddi'n lleol i reoli pwysau ymwelwyr a chefnogi twristiaeth gynaliadwy. Er nad yw ardoll wedi'i bwriadu i reoleiddio ymddygiad ymwelwyr yn uniongyrchol, gall y cyllid a gynhyrchir ddarparu capasiti ychwanegol i ddiogelu a gwella'r asedau naturiol sy'n sail i'r economi ymwelwyr.

### 5.1 Buddsoddiad gwell mewn rheolaeth amgylcheddol

Gallai refeniw Ardoll Ymwelwyr ddarparu ffynhonnell ariannu benodol i gefnogi:

- Cynnal a gwella llwybrau troed, llwybrau, llwybrau arfordirol a seilwaith mynediad
- Gwasanaethau gwastraff a glanhau gwell, yn enwedig mewn lleoliadau traffig uchel
- Darparu toiledau, arwyddion a chyfleusterau i ymwelwyr, gan leihau defnydd anffurfiol neu niweidiol o ardaloedd sensitif
- Gall buddsoddiad o'r fath helpu i liniaru effeithiau pwysau ymwelwyr a lleihau diraddio amgylcheddol hirdymor.

### 5.2 Gwell diogelu safleoedd a chynefinoedd sensitif

Gallai cyllid yr ardoll gefnogi mesurau targedig i ddiogelu:

- Safleoedd dynodedig fel ACAau, AGAau, SoDdGAau a gwarchodfeydd natur lleol
- Cynefinoedd arfordirol, ucheldirol a gwledig sy'n agored i erydiad neu aflonyddwch
- Ardaloedd sy'n profi cynnydd tymhorol neu sy'n gysylltiedig â'r tywydd mewn gweithgarwch ymwelwyr

Gallai hyn gynnwys rheolaeth weithredol ar gynefinoedd, mesurau rheoli ymwelwyr, neu fonitro gwell o gyflwr yr amgylchedd.

### 5.3 Cymorth i dwristiaeth gynaliadwy ac adfywiol

Gall Ardoll Ymwelwyr helpu i symud gweithgarwch twristiaeth tuag at fodel mwy cynaliadwy neu adfywiol, drwy ariannu mentrau sy'n:

- Lleihau ôl troed amgylcheddol twristiaeth
- Annog ymddygiad cyfrifol ymhlith ymwelwyr
- Cydbwyso diogelu'r amgylchedd â buddion economaidd

Dros amser, gall hyn helpu i sicrhau nad yw twf twristiaeth yn digwydd ar draul ansawdd yr amgylchedd.

### 5.4 Cynyddu ymwybyddiaeth ac addysg amgylcheddol

Gellir defnyddio refeniw'r ardoll i gefnogi:

- Addysg a dehongli amgylcheddol, gan gynnwys arwyddion, byrddau gwybodaeth ac adnoddau digidol
- Ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo ymddygiad cyfrifol, megis lleihau sbwriel, diogelu bywyd gwyllt, a pharchu'r amgylchedd lleol
- Gweithgareddau ymgysylltu sy'n gwella dealltwriaeth o werth a bregusrwydd tirweddau naturiol

Gall gwell ymwybyddiaeth gyfrannu at newid ymddygiad hirdymor ymhlith ymwelwyr a thrigolion.

### 5.5 Lleihau pwysau drwy well rheolaeth o ymwelwyr

Pan fo adnoddau ar gael, gall cyllid yr ardoll gefnogi:

- Mesurau i reoli'n well ddosbarthiad ac amseriad gweithgarwch ymwelwyr, gan leihau pwysau ar y lleoliadau mwyaf sensitif
- Gwelliannau sy'n arwain defnydd ymwelwyr ar hyd llwybrau a chyfleusterau a ddyluniwyd, gan leihau erydiad anffurfiol neu ddifrod i gynefinoedd
- Dulliau rheoli tymhorol i fynd i'r afael ag effeithiau cyfnodau brig

Gall hyn leihau niwed amgylcheddol nas cynlluniedig neu nas rheolir.

### 5.6 Cyfraniad at amcanion hinsawdd ac amgylcheddol

Gall refeniw Ardoll Ymwelwyr hefyd gefnogi prosiectau sy'n cyd-fynd ag amcanion amgylcheddol a hinsawdd ehangach, megis:

- Annog opsiynau teithio carbon isel lle bo hynny'n ymarferol
- Cryfhau gwydnwch amgylcheddol mewn ardaloedd arfordirol ac ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd
- Cefnogi mesurau addasu mewn ymateb i newid hinsawdd

Mae hyn yn helpu i alinio gweithgarwch twristiaeth â dyletswyddau amgylcheddol cenedlaethol a lleol.

### 5.7 Buddion amgylcheddol posibl o newidiadau mewn ymddygiad ymwelwyr

Os bydd yr ardoll yn arwain at ostyngiad bach yn nifer yr ymwelwyr dros nos neu hyd eu harhosiad, gallai fod buddion amgylcheddol eilaidd, gan gynnwys:

- Llai o dagfeydd ac allyriadau traffig
- Llai o bwysau ar safleoedd sensitif yn ystod cyfnodau brig
- Llai o effeithiau cronnol lle'r oedd nifer yr ymwelwyr yn rhagori ar gapasiti amgylcheddol

Er bod canlyniadau o'r fath yn ansicr ac yn anodd eu mesur, gallant gyfrannu'n gadarnhaol mewn ardaloedd lle mae nifer yr ymwelwyr yn eithriadol o uchel.

Nid yw effeithiau amgylcheddol cadarnhaol yn ganlyniad awtomatig i gyflwyno ardoll. Maent yn dibynnu ar:

- Drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau clir
- Defnydd tryloyw a thargedig o refeniw
- Monitro a gwerthuso effeithiol o ganlyniadau

Heb yr amodau hyn, byddai'r cyfle i sicrhau buddion amgylcheddol yn cael ei leihau'n sylweddol.

## 6. Effeithiau Amgylcheddol Negyddol Posibl Ardoll Ymwelwyr

Er bod gan Ardoll Ymwelwyr y potensial i gefnogi diogelu'r amgylchedd a thwristiaeth gynaliadwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae hefyd effeithiau amgylcheddol negyddol posibl y dylid eu cydnabod. Byddai'r effeithiau hyn yn anuniongyrchol, yn ansicr, ac yn dibynnu ar ymatebion ymwelwyr, penderfyniadau awdurdodau cyfagos, a'r modd y caiff refeniw'r ardoll ei ddefnyddio'n lleol.

### 6.1 Dadleoli ymddygiad ymwelwyr

Os yw cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn arwain rhai ymwelwyr i newid eu hymddygiad, mae risg o:

- Gynnydd mewn ymweliadau dydd, yn enwedig i gyrchfannau arfordirol a threfi Conwy, lle mae teithio mewn car yn fwy cyffredin
- Pwysau ychwanegol ar barcio, llif traffig a mynediad wrth ochr y ffordd mewn cymunedau arfordirol a gwledig
- Pwysau amgylcheddol cynyddol ar safleoedd poblogaidd heb fudd refeniw'r ardoll dros nos i ariannu mesurau lliniaru

Mae'r risg hon yn arbennig o berthnasol pan fydd ymwelwyr yn dewis peidio ag aros dros nos yng Nghonwy ond yn parhau i ymweld yn ystod cyfnodau brig.

### 6.2 Ailddosbarthu pwysau ymwelwyr o fewn y sir

Yn hytrach na lleihau'r galw cyffredinol, gallai ardoll arwain at:

- Ailddosbarthu gweithgarwch ymwelwyr tuag at leoliadau arfordirol amgen, pentrefi gwledig neu bwyntiau mynediad ucheldirol
- Mwy o ddefnydd o safleoedd llai rheoledig neu lai gwydn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig gerllaw Parc Cenedlaethol Eryri
- Pwysau amgylcheddol newydd mewn lleoliadau nad ydynt ar hyn o bryd yn profi niferoedd uchel o ymwelwyr

Gallai'r ailddosbarthu hwn greu pwysau ychwanegol ar dirweddau sensitif os nad yw'n cael ei ategu gan reolaeth effeithiol o ymwelwyr.

### 6.3 Pwysau cynyddol sy'n deillio o ailfuddsoddi

Gall buddsoddiad a ariennir drwy refeniw'r ardoll—er enghraifft mewn cyfleusterau gwell, mynediad neu'r amgylchedd cyhoeddus—:

- Gynyddu atyniad rhai llwybrau arfordirol, llwybrau cefn gwlad neu ardaloedd hamdden ucheldirol
- Arwain at niferoedd uwch o ymwelwyr mewn lleoliadau sy'n sensitif yn amgylcheddol
- Waethygu pwysau lle nad yw mynediad cynyddol yn cyfateb â rheolaeth weithredol ar safleoedd

Er bod ailfuddsoddi wedi'i fwriadu i sicrhau buddion amgylcheddol a chymunedol, mae perygl y gall gwelliannau ddenu galw ychwanegol yn anfwriadol.

### 6.4 Lliniaru cyfyngedig mewn lleoliadau o bwysau uchel

Os yw refeniw'r ardoll yn is na'r disgwyl, wedi'i gyfyngu gan gostau gweinyddol, neu wedi'i wasgaru ar draws ystod eang o brosiectau:

- Gall y gallu i liniaru pwysau amgylcheddol mewn mannau poeth arfordirol, pwyntiau mynediad gwledig, neu leoliadau sy'n gysylltiedig â pharciau fod yn gyfyngedig
- Gall problemau presennol megis erydiad, sbwriel a thagfeydd barhau
- Mae'r risg hon yn arbennig o berthnasol mewn lleoliadau sy'n profi galw tymhorol sydyn

### 6.5 Pwysau amgylcheddol parhaus lle nad yw ymddygiad yn newid

Os yw ymddygiad ymwelwyr yn aros yn fras yr un fath ar ôl cyflwyno ardoll:

- Gall pwysau parhaus ar amgylcheddau arfordirol, ffyrdd gwledig, a llwybrau poblogaidd ucheldirol barhau
- Gall effeithiau amgylcheddol megis sbwriel, aflonyddwch i gynefinoedd ac erydiad barhau oni bai bod mesurau targedig yn cael eu rhoi ar waith

Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai'r ardoll ar ei phen ei hun yn ddigon i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol.

### 6.6 Risgiau tegwch a chanfyddiad mewn cymunedau Conwy

Gall canfyddiadau negyddol godi os:

- Mae cymunedau arfordirol a gwledig yn parhau i brofi pwysau uchel gan ymwelwyr heb welliant amgylcheddol amlwg
- Nid yw ymwelwyr a thrigolion yn glir ynghylch sut mae refeniw'r ardoll yn cael ei ddefnyddio i gefnogi diogelu'r amgylchedd
- Nid yw'r buddion amgylcheddol yn cael eu priodoli'n glir i gyllid yr ardoll

Gallai hyn danseilio hyder y cyhoedd mewn ymyriadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

### 6.7 Ansicrwydd ac effeithiau cronnol

Mae'n anodd rhagweld yn fanwl gywir yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag Ardoll Ymwelwyr. Gall ffactorau ehangach megis:

- Patrymau tywydd sy’n sbarduno ymweliadau i’r arfordir a’r cefn gwlad
- Crynodiad tymhorol o ymwelwyr yn ystod misoedd brig
- Penderfyniadau awdurdodau cyfagos ynghylch mabwysiadu ardoll ryngweithio â thueddiadau twristiaeth lleol i greu effeithiau amgylcheddol cronnol, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol ac ucheldirol sensitif.

### 6.8 Ystyriaethau lliniaru

Gellid lliniaru effeithiau amgylcheddol negyddol posibl yng Nghonwy drwy:

- Lywodraethu clir a thryloywder o ran defnyddio refeniw’r ardoll
- Buddsoddi targedig mewn lleoliadau arfordirol, gwledig ac ardaloedd cyfagos i barciau sy’n profi’r pwysau mwyaf
- Monitro parhaus o effeithiau amgylcheddol ac ymddygiad ymwelwyr â pholisïau rheoli cyrchfannau, bioamrywiaeth a hinsawdd presennol

Er bod risgiau amgylcheddol posibl ynghlwm wrth gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy, maent i raddau helaeth yn anuniongyrchol a gellir eu lliniaru drwy ailfuddsoddi targedig, rheoli ymwelwyr yn effeithiol, a monitro parhaus o effeithiau mewn lleoliadau arfordirol, gwledig ac sy’n gysylltiedig â pharciau.

**Tabl 1: Crynodeb o Effeithiau Amgylcheddol Ardoll Ymwelwyr**

| Maes Effaith | Effeithiau Cadarnhaol Posibl | Effeithiau Negyddol / Risgiau |
|---|---|---|
| Pwysau ymwelwyr | Gwell rheolaeth ar fannau traffig uchel | Ailddosbarthu i safleoedd llai rheoledig |
| Amgylcheddau arfordirol ac ucheldirol | Buddsoddi mewn cynnal llwybrau a rheoli erydiad | Pwysau parhaus os yw cyllid yn annigonol |
| Gwastraff a glanhau | Gwasanaethau gwell yn ystod cyfnodau brig | Sbwriel parhaus os nad yw ymddygiad yn newid |
| Bioamrywiaeth | Diogelu a monitro cynefinoedd yn dargedig | Aflonyddwch os yw gwelliannau mynediad yn cynyddu defnydd |
| Trafnidiaeth a charbon | Cefnogaeth i deithio cynaliadwy | Cynnydd mewn ymweliadau dydd mewn car |
| Hyder cymunedol | Gwelliannau amgylcheddol gweladwy | Canfyddiadau negyddol os nad yw’r buddion yn glir |

## 7. Ystyriaethau Bioamrywiaeth (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)

Gall gweithgarwch twristiaeth effeithio ar fioamrywiaeth drwy aflonyddwch i fywyd gwyllt, pwysau ar gynefinoedd, a difrod i lystyfiant sensitif. O fewn Conwy, gall yr effeithiau hyn fod fwyaf amlwg mewn cynefinoedd arfordirol, ardaloedd ucheldirol, a safleoedd dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol, yn enwedig lle mae nifer yr ymwelwyr yn dymhorol neu wedi’i grynhoi’n uchel.

Er nad yw ystyriaethau bioamrywiaeth yn pennu a ddylid cyflwyno Ardoll Ymwelwyr, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddyletswydd statudol o dan Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. Rhaid i’r ddyletswydd hon felly lywio sut y caiff unrhyw refeniw’r ardoll ei wario.

Gallai buddsoddiad targedig a llywodraethu da o refeniw'r ardoll helpu i liniaru pwysau ar fioamrywiaeth a sicrhau canlyniadau cadarnhaol, er enghraifft drwy:

- Wella rheolaeth safleoedd a rheoli ymwelwyr mewn ardaloedd sensitif
- Prosiectau diogelu ac adfer cynefinoedd
- Monitro safleoedd dynodedig a chynefinoedd blaenoriaeth
- Mesurau i leihau aflonyddwch i fywyd gwyllt a diraddio llystyfiant

Yn y cyd-destun hwn, dylai gwella a diogelu bioamrywiaeth fod yn rhan o'r meini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu prosiectau a ariennir gan yr ardoll, gan sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad yn cefnogi rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd naturiol Conwy ac yn cyfrannu at wydnwch amgylcheddol hirdymor.

## 8. Ystyriaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Ardoll Ymwelwyr yn berthnasol yn glir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nodau o:

- Cymru Gydnerth – diogelu ecosystemau a bioamrywiaeth
- Cymru Iachach – mynediad i amgylcheddau naturiol o ansawdd uchel
- Cymru Ffyniannus – cynnal yr economi ymwelwyr
- Cymru o Gymunedau Cydlynus – rheoli effeithiau ar ardaloedd lleol

Mae stiwardiaeth amgylcheddol hirdymor yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau hyn.

## 9. Enghreifftiau o Gyrchfannau Eraill

Yn rhyngwladol, defnyddiwyd ardollau ymwelwyr mewn amrywiaeth o gyrchfannau i gefnogi diogelu'r amgylchedd a rheoli ymwelwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Seland Newydd, lle mae refeniw ardoll wedi ariannu cadwraeth, diogelu cynefinoedd a seilwaith i ymwelwyr
- Gwlad yr Iâ, lle mae trethi twristiaeth yn cefnogi diogelu a rheoli atyniadau naturiol sensitif
- Cyrchfannau alpinaidd a gwledig Ewrop, lle mae ardollau'n helpu i ariannu cynnal llwybrau, diogelu cynefinoedd a rheoli tir yn gynaliadwy

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y gall ardollau twristiaeth, pan gaiff refeniw ei dargedu'n dda, gefnogi diogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd hirdymor cyrchfannau.

## 10. Effaith Newidiadau yn Nifer yr Ymwelwyr

Pe bai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn arwain at ostyngiad bach yn nifer yr ymwelwyr dros nos, gallai effeithiau amgylcheddol gynnwys:

- Llai o bwysau ar safleoedd sensitif
- Lefelau is o sbwriel a thagfeydd traffig
- Gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â theithio

Fodd bynnag, mae risg hefyd:

- Y gallai rhai arosiadau dros nos droi'n ymweliadau dydd, gan gynyddu traffig a phwysau heb greu refeniw ardoll
- Y gallai galw ymwelwyr gael ei ailddosbarthu'n ofodol yn hytrach na lleihau'n gyffredinol

Byddai'r effeithiau hyn yn amrywio yn dibynnu ar ymatebion ymwelwyr ac a yw awdurdodau cyfagos hefyd yn cyflwyno ardoll.

## 11. Casgliad

Mae cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd amgylcheddol. Mae effeithiau andwyol posibl—megis newid ymddygiad ymwelwyr, cynnydd mewn ymweliadau dydd, neu bwysau parhaus ar ardaloedd sensitif—yn parhau'n ansicr. Bydd maint yr effeithiau hyn yn dibynnu ar ymateb ymwelwyr, tueddiadau twristiaeth ehangach, a phenderfyniadau polisi awdurdodau cyfagos.

O'i gymharu â'r risgiau hyn, mae'r cyfle amgylcheddol mwyaf yn gorwedd yn y potensial i greu ffynhonnell ariannu benodol i gefnogi lliniaru, rheoli ymwelwyr, a symud tuag at dwristiaeth fwy cynaliadwy a gwydn. Pan gaiff refeniw ei lywodraethu'n glir, ei ddosbarthu'n dryloyw, a'i dargedu at leoliadau sydd o dan y pwysau mwyaf, gallai'r ardoll chwarae rôl bwysig wrth leihau niwed amgylcheddol, rheoli effeithiau ymwelwyr, a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd tirwedd.

O ystyried rôl ganolog amgylchedd naturiol Conwy wrth gynnal yr economi ymwelwyr, lles cymunedau a chynaliadwyedd hirdymor y sir, dylai unrhyw benderfyniad ynghylch cyflwyno Ardoll Ymwelwyr roi diogelu, lliniaru a gwella'r amgylchedd wrth ei wraidd. Er na fydd yr ardoll ei hun yn lleihau pwysau amgylcheddol yn uniongyrchol, gall ddarparu mecanwaith gwerthfawr i gefnogi'r amcanion hyn os caiff ei weithredu'n effeithiol.

Bydd canlyniadau amgylcheddol yr ardoll yn dibynnu ar:

- Grym ac eglurder trefniadau llywodraethu
- Tryloywder a thargedu buddsoddiad a ariennir gan yr ardoll
- Cydweddu â pholisïau amgylcheddol, bioamrywiaeth a hinsawdd
- Monitro a gwerthuso parhaus o effeithiau a chanlyniadau

Yn y pen draw, nid yn ei chyflwyno y mae gwerth amgylcheddol Ardoll Ymwelwyr, ond yn y modd y caiff refeniw ei ailfuddsoddi, y caiff effeithiau eu monitro, a'r ffordd y caiff amcanion amgylcheddol eu gwreiddio mewn penderfyniadau rheoli cyrchfannau—er mwyn diogelu a gwella asedau naturiol Conwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.